**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** 9 Rhagfyr 1999

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: Adroddiad y Cadeirydd**

## 1. Mewnfudo a Nodded

1.1 Mae tipyn o waith wedi'i wneud ers i ni gael cyflwyniad ar faterion ynghylch mewnfudo a nodded yn mis Medi.

1.2 Byddwch yn gwybod fod trafodaeth wedi'i chynnal ar y mater hwn yng nghyfarfod llawn 30 Tachwedd. Byddwch hefyd yn gwybod fod y Swyddfa Gartref yn arwain y ffordd ar y mater hwn. Cyn y drafodaeth, cwrddodd un o swyddogion Gwasanaeth Cynnal Nodded Cenedlaethol newydd y Swyddfa Gartref â swyddogion a chyrff allanol eraill oedd â diddordeb ar 19 Tachwedd i roi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf. Fel a amlinellwyd gan y Prif Ysgrifennydd yn y drafodaeth, mae'n sefyllfa gyfnewidiol iawn sy'n symud yn gyflym.

1.3 Cyflwynwyd Cwestiwn Llafar y Cynulliad gan Helen Mary Jones i'w ateb ar 23 Tachwedd ynghylch a fyddai adnoddau digonol yn cael eu darparu i Awdurdodau Lleol allu dod o hyd i le ar gyfer y nifer fawr o bobl y disgwylir iddynt geisio nodded, a'u cynnal. Gellir dod o hyd i'r cwestiwn a'r ateb yn Atodiad A.

1.4 Cwrddais hefyd â Chyngor Ffoaduriaid Cymru ar 25 Tachwedd gan weld drosof fy hun a'u deall yn well.

1.5 Er nad oes gan y Cynulliad bwerau uniongyrchol, ac yn sicr, ddim darpariaeth cyllid ar gyfer ymdrin â'r trefniadau arfaethedig o dan y Ddeddf Mewnfudo a Nodded, gallai effaith nifer fawr o bobl sy'n ceisio nodded yng Nghymru fod yn sylweddol, a cheir pryder arbennig ynghylch effaith hyn ar addysg a gwasanaethau iechyd.

1.6 Mae llawer o waith eto i'w wneud yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gallu darparu llety ar gyfer pobl sy'n ceisio nodded yma, a'u cynnal. Ymddengys fod Awdurdodau Lleol yn deall yr hyn sydd ei angen, ond bydd angen i'r Cynulliad barhau i fonitro a hwyluso hynny lle bo angen.

I’r perwyl hwnnw, yr ydym yn chwilio am secondiad tymor byr i’r Uned Polisi Cydraddoldeb ar frys, er mwyn cydlynu’r hyn sydd ei angen yn fewnol ac i helpu’n allanol lle bo angen.

1.7 O gofio ansicrwydd y sefyllfa, yr wyf wedi gofyn am ddarparu adroddiadau cyson i’r pwyllgor hwn.

**2. <u>Cyngres Amrywiaeth Diwylliannol Byd-Eang</u>**

2.1 Yn sgil y cyflwyniad a wnaed gan drefnwyr y Gyngres Amrywiaeth Diwylliannol Byd-Eang i’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn mis Tachwedd, mae Swyddogion wedi ystyried pa rôl sydd gan y Cynulliad wrth fwrw ymlaen â’r mater hwn.

2.2 Yng nghyfarfod Cyfarwyddwyr y Grwp ar 12 Tachwedd, cytunwyd i sefydlu gweithgor ar lefel Pennaeth Grwp, o dan arweiniad George Craig ac wedi’i gefnogi gan rwydwaith hwyluso/ cydlynu ar draws y swyddfa. Byddai’r grwp yn datblygu cynllun gweithredu, ymhlith pethau eraill, a fyddai’n ceisio dod o hyd i bobl i gymryd rhan yn y gweithdai, ysgogwyr a hwyluswyr ac ystyried materion megis anghenion lletya

2.3 Fel mesur o ymrwymiad y Cynulliad i helpu i wneud hwn yn llwyddiant, yr wyf yn falch o allu dweud fod aelod o staff wedi’i glustnodi i weithio’n llawn amser ar y Gyngres nes iddi ddod i ben ar 24 Mawrth. Yr wedi gofyn am gael ein briffio’n rheolaidd fel ein bod yn ymwybodol o’r newyddion diweddaraf.

**3. <u>Ymchwiliad Stephen Lawrence/Adroddiad Macpherson</u>**

3.1 Mae dyddiad wrthi’n cael ei bennu ar gyfer cyfarfod o weithgor y Pwyllgor er mwyn ystyried sut y mae argymhellion adroddiad Stephen Lawrence/Macpherson yn cael eu rhoi ar waith yn y Cynulliad. Bydd y grwp yn cynnwys Helen Mary Jones, Kirsty Williams, Richard Edwards a David Melding. Bydd Charles Willie o’r Uned Polisi Cydraddoldeb a Jazz Iheanacho o Race Equality First hefyd yn bresennol. Yn ôl pob sôn, mae asiantaethau eraill megis Heddlu De Cymru ac Awdurdodau Lleol hefyd yn cynnal ymarferion tebyg. Mae trafodaethau cychwynnol wedi’u cynnal â Syniad, sy’n rhoi hyfforddiant i awdurdodau lleol, gyda’r bwriad o gynnal seminar ar y cyd ar y mater hynod bwysig hwn. Dyma fydd un o’r eitemau i’w trafod yng nghyfarfod cyntaf y grwp. Caiff agenda ddrafft ar gyfer y cyfarfod ei darparu maes o law.

**4. Cynlluniau Byw yn Annibynnol ar gyfer Pobl Anabl**

4.1 Rhoddodd Clymblaid Pobl Anabl Caerdydd a’r Fro gyflwyniad i’r Pwyllgor Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol ynghylch Taliadau Uniongyrchol a Chynlluniau Byw yn

Annibynnol ddydd Iau 18 Tachwedd. Gwnaed hyn o fewn cyd-destun Deddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996 sy'n rhoi grym i'r awdurdodau lleol gynnig taliadau mewn arian yn hytrach na threfnu gwasanaethau gofal cymdeithasol, fel y gallant brynu'r gwasanaethau eu hunain. Nid oes raid i Awdurdodau Lleol gynnig taliadau uniongyrchol o dan y ddeddfwriaeth bresennol, os y dymunant. Ymrwymodd Papur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ehangu nifer y bobl dros 65 oed allai dderbyn taliadau uniongyrchol o dan y cynllun. Ni chafwyd unrhyw ymrwymiad penodol ar gyfer grwpiau eraill yn Lloegr, megis pobl anabl 16 a 17 oed a rhieni sy'n gofalu am blant anabl, ac efallai y bydd Cymru yn gwneud yr un peth pan fydd deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei chyflwyno. Mae'r camau a ddeilliodd o'r cyflwyniad yn cynnwys: ymgynghorir â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gynigion i adolygu canllawiau/rheoliadau sy'n deillio o'r arolwg Cynllun Taliadau Uniongyrchol; a gofynnodd y Pwyllgor i gael gweld Adroddiad o Werthusiad Project Byw yn Annibynnol Anabledd Cymru.

**5. Her Arweiniad**

5.1 Yn ystod ei chyflwyniad yn y cyfarfod diwethaf, soniodd Judith Jones am ddigwyddiad yr Her Arweiniad ar 7 Rhagfyr. Byddaf yn gofyn i Judith roi peth adborth o'r digwyddiad pwysig hwn yn y cyfarfod.

**6. Cyfarfodydd**

6.1 Yn dilyn ein cyfarfod diwethaf ar 11 Tachwedd, cwrddais â chynrychiolwyr **Pwyllgor Menywod Cymru o'r TUC.** Trafodwyd materion ynghylch cyfle cyfartal, meynwod yn rheoli addysg, gofal plant ac iechyd. Codwyd nifer o faterion penodol y byddaf yn eu trosglwyddo i wahanol Adrannau o'r Cynulliad.

6.2 Cymerais ran mewn digwyddiad a hyrwyddwyd gan y **Rhwydwaith AIDS Cymru Gyfan** ar 24 Tachwedd. Bwriad y digwyddiad oedd lansio Llyfryn ar gyfer Deddfwyr ar HIV/AIDS, Cyfraith ac Hawliau Dynol a gynhyrchwyd ar y cyd gan Adran Polisi UNAIDS a'r Undeb Rhyng-Seneddol. Mae'r llyfryn yn ymdrin ag ystod eang o ymatebion y gallai llywodraethau o amgylch y byd eu cymryd ar HIV neu y maent wedi'u cymryd, gydag enghreifftiau o iechyd y cyhoedd, hawliau dynol a chyfraith troseddol sydd wedi'u rhoi ar waith i geisio mynd i'r afael ag epidemic HIV. Ei fwriad yw bod yn llyfryn defnyddiol i seneddwyr. Trefnodd Grwp Seneddol Aml-Bleidiol Llywodraeth y DU ar AIDS i gynnal lansiad y DU o'r Llyfryn UNAIDS ar yr un pryd yn Llundain, Caeredin, Caerdydd a Gogledd Iwerddon.

6.3 Hefyd ar 2 Rhagfyr, cwrddais â dirprwyaeth o fenywod a oedd yn cymryd rhan yn **rhaglen Cyngor Tref Derry ' Women on the Move'.** Mae'n cynnig fforwm i 24 o arweinwyr benywaidd o asiantaethau gwirfoddol, cymunedol a chyhoeddus y ddinas i drafod materion enwadaeth, cydraddoldeb a amlblwyfaeth. Mae dirprwyaethau yn ymweld ag ardaloedd eraill er mwyn

cyfnewid profiadau a syniadau. Cafwyd trafodaeth ar waith cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol, aethpwyd i gwrdd â chynrychiolwyr y CE yng Nghymru ac ymwelwyd â Gweithdy Menywod De Morgannwg.

## 7. Materion Eraill

7.1 Yn y cyfarfod yr wyf yn bwriadu ei gynnal gyda'r Llywydd, yr wyf yn edrych ymlaen at drafod ein cynigion o dan eitem 3 o agenda heddiw a chynigion a drafodwyd gan swyddogion ynghylch hawl i gael gweld gwybodaeth.

7.2 Ar 29 Tachwedd, trefnodd Mewn Cymru ddigwyddiad ar gyfer merched ysgol o leiafrifoedd ethnig. Yn anffodus, nid oeddwn yn gallu mynychu. Ei fwriad oedd rhoi enghreifftiau iddynt o fodelau i'w hefelychu mewn gwahanol feysydd. Mynychodd Kate Cassidy ac efallai y bydd yn awyddus i roi manylion.

7.3 Cyhoeddais ddatganiad i'r wasg yn tanlinellu'r materion sy'n ymwneud â Diwrnod Aids Cenedlaethol ar 1 Rhagfyr. Amgaeir y testun yn Atodiad B o'r papur hwn. Cynhaliwyd amryw o ddigwyddiadau ledled Cymru i danlinellu peryglon y clefyd ac i gofio am y rhai sy'n dioddef ohono neu wedi dioddef ohono.

7.4 Hysbysebwyd swyddi Cadeirydd, Is Gadeirydd a Chomisiynwyr ar gyfer y CRE yn y Western Mail ar 2 Rhagfyr.

**Atodiad A**

## Y Mesur Mewnfudo a Nodded Arfaethedig

**C4 Helen Mary Jones:** A roddir adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol yng Nghymru i drafod eu cyfrifoldebau newydd a sylweddol o dan Fesur Mewnfudo a Nodded arfaethedig y Llywodraeth? (OAQ2120)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r cyfrifoldebau o dan y Mesur Mewnfudo a Nodded yn perthyn i'r Swyddfa Gartref, a fydd hefyd yn cyllido'r gwasanaethau hynny drwy'r Gwasanaeth Cefnogi Nodded Cenedlaethol newydd. Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn darparu arian datblygu i helpu awdurdodau lleol i sefydlu'r strwythurau newydd a fydd yn angenrheidiol.

Rhaid inni ddeall o ble yr ydym yn symud. Hyd yn hyn, bu'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i

ddarparu cymorth sylfaenol i geiswyr nodded o dan amodau'r Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 a'r Ddeddf Plant 1989. Mae'r system newydd hon, sydd yn rhoi'r cyfrifoldeb dros ariannu'r anghenion hynny ar yr adran o'r Llywodraeth sydd yn gyfrifol am benderfynu ar yr hawliad am nodded, yn gam ymlaen.

**Helen Mary Jones:** A gytunwch â'r cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru sydd yn credu bod elfennau yn y mesur hwn yn sarhaus ac yn hiliol? A allaf gymryd yr hyn yr ydych newydd ei ddweud yn sicrwydd y telir am unrhyw faich ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r bwriad i glystyru ceiswyr nodded o dan y Mesur, o arian y Swyddfa Gartref ac nid o floc Cymru, yn achos awdurdodau lleol yng Nghymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni dderbyniaf rai o'r sylwadau a wnaethpwyd. Mae gennyf beth profiad o ddelio â materion ffoaduriaid, yn enwedig eu heffaith ar ardal Caerdydd fel Aelod Seneddol dros Dde Caerdydd a Phenarth, a chyn hynny fel gweithiwr cymdeithasol yn Butetown a Grangetown yng Nghaerdydd. Gwelais rai o'r problemau â'm llygaid fy hun, yn enwedig effaith y nifer o ffoaduriaid a ddaeth at y gymuned Somali yng Nghymru.

Bu ceiswyr nodded a ffoaduriaid erioed a bu arnynt angen addysg, gofal iechyd a gwasanaethau eraill erioed. Pe buasai'r hen drefniadau wedi parhau, buasai'n rhaid i'r awdurdodau lleol wynebu costau uwch fyth wrth ddiwallu anghenion llety a chymorth sylfaenol. Mae'r rheswm dros y newid--tacluso'r pwysau sydd ar wasanaethau--yn un teg. Gallaf gadarnhau bod y Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd yn ariannu'r rhaglen hon.

**Atodiad B**

**DIWRNOD AIDS Y BYD: NID DYMA'R ADEG I FOD YN HUNANFODLON YN ÔL JANE HUTT**

Ni all Cymru fforddio fod yn hunanfodlon yn wyneb ymlediad HIV, y feirws sy'n achosi AIDS, dywed Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt, mewn datganiad i nodweddu Diwrnod AIDS y Byd (1 Rhagfyr).

Er bod Cymru wedi'i harbed rhag y lefelau uchel o haint a welir mewn mannau eraill, bydd cyfradd y cynnydd yn yr haint HIV yn y dyfodol yn cael ei dylanwadu gan ansawdd y strategaethau ac ymyriadau ar gyfer atal HIV, ys dywed Jane Hutt.

Yn ôl Jane Hutt, sydd hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor ar Gyfle Cyfartal: "Ni allwn fforddio fod yn hunanfodlon. Rhaid inni barhau i bwysleisio pwysigrwydd derbyn bod HIV yn gyfrifoldeb y dylem ei rannu er nad yw ei effeithiau'n cael eu profi'n gyfartal. Mae pawb, unigolion, teuluoedd a chymunedau'n rhannu'r cyfrifoldeb o gynorthwyo i atal ymlediad yr haint, a

chryfhau cyfleoedd y cymunedau hynny sydd wedi'u heintio.

"Rhaid inni weithio â'r bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac â'r gofalwyr er mwyn sicrhau nad yw'r rhai hynny sydd ag HIV ac AIDS yn cael eu gwahardd yn gymdeithasol. Mae'n bwysig ymgodymu â'r stigma sy'n ymwneud ag HIV ac AIDS.

"Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datblygu dwy strategaeth ar hyn o bryd – y Strategaeth ar Glefydau Heintus a'r Fframwaith Strategol ar gyfer Hybu Iechyd Rhywiol yng Nghymru – a fydd yn wynebu materion HIV. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n awyddus i weithio ar y cyd, yn enwedig â'r gymuned, er mwyn sicrhau bod yr agenda iechyd cyhoeddus sy'n anelu at wella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd yn cael ei chyflawni."

Mae Diwrnod AIDS y Byd eleni yn canolbwyntio ar gyfathrebu â phlant ac â phobl ifainc. Yn fyd-eang, mae mwy na hanner nifer yr heintiau newydd o HIV yn digwydd mewn pobl 10-24 oed.

Yn niffyg unrhyw frechlyn ar gyfer HIV na chwaith meddyginiaeth at wella AIDS, yr arfau mwyaf effeithiol yn erbyn yr haint HIV yw gwybodaeth ac addysg am ryw mwy diogel.

Yng Nghymru, mae arolwg newydd ar agweddau ac ymddygiad rhywiol pobl ifainc 15-16 oed wedi amlinellu rhai o'r heriau sydd yn ymwneud â chyfleu'r neges am ryw mwy diogel. Cynhaliwyd yr arolwg er mwyn helpu i oleuo'r Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd Rhywiol sy'n cael ei ddatblygu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd.

Datgelodd yr arolwg fod barnau positif ar y cyfan am ddefnyddio condomau. Fodd bynnag, dywedodd hanner nifer y bechgyn a oedd wedi cael rhyw fod defnyddio condom yn gwneud cael rhyw yn llai pleserus. Dywedodd 40 y cant o'r bobl ifainc 15-16 oed yng Nghymru a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg na fyddai ddim cael condom yn peri iddynt beidio â chael rhyw gyda phartner newydd.

Roedd yr wybodaeth yngln â sut mae'r haint HIV yn trosglwyddo o un person i un arall yn uchel ar y cyfan ymhlith y bobl ifainc yn yr arolwg. Fodd bynnag, roedd chwech o bob 10 yn credu'r anwiredd fod pobl yn gallu cael eu heintio â HIV drwy roi gwaed. Roedd un o bob pum bachgen yn credu'r anwiredd y gellir gwella AIDS os yw'n cael ei drin yn ddigon cynnar (nid oes modd gwella AIDS).

Hyd yma, y nifer o achosion newydd o'r haint HIV yng Nghymru yn 1999 yw 27, o'i gymharu â 37 yn 1998 a 33 yn 1997. Yn y DU bu 2,936 o achosion newydd o'r haint HIV rhwng Gorffennaf 1998 a Mehefin 1999, o'i gymharu â 2,627 yn yr un cyfnod blaenorol o 12 mis.